

Ynni Sir Gâr Cyf

Dogfen  
Cynnig Cyfranddaliadau  
2019

Helpwch ni i godi'r £100,000 olaf  
Dyddiad cau: 24/12/2019

# Llythyr y Cyfarwyddwyr

Hydref 2019

Annwyl Gefnogwyr ac Aelodau,

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd cyffrous ers ein Cynnig Cyfranddaliadau blaenorol. Mae ein tyrbîn gwynt wedi bod yn cynhyrchu ynni am dair blynedd a hanner ac mae ein 200 o aelodau wedi cael eu helw disgwyliedig bob Haf. Rydym ni'n eich annog i ddod yn Aelod i godi ein llais wrth oresgyn yr Argyfwng Hinsawdd ac yn mynd i fod mewn sefyllfa i gynnig dychweliad teg i'w holl Aelodau ar gyllid.

Mae Ynni Sir Gâr yn Gymdeithas Budd Cymunedol a sefydlwyd yn 2012 yn dilyn blwyddyn o ymgynghori gyda chymunedau, busnesau, cynghorwyr a swyddogion. Ein nod yw cefnogi grwpiau cymunedol a'r rheiny sy'n dioddef tlodi tanwydd ac yn poeni am ddiogelwch ynni a'r newid yn yr hinsawdd; gan greu prosiectau ynni adnewyddadwy i'w rhedeg er mwyn y bobl yn hytrach nag er mwyn elw, gan ail-fuddsoddi unrhyw warged a gynhyrchir yn yr economi lleol.

Rydym ni wedi cwblhau'r gwaith o osod ein prosiect ynni adnewyddadwy cyntaf; tyrbîn gwynt 500kW sydd yn cynhyrchu ynni glân, carbon isel. Ni fuasem wedi gallu cyflawni hyn heb gefnogaeth a chyllid yr aelodau presennol.

Mae'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn ad-dalu'r benthyciad olaf a dderbyniwyd ar gyfer y costau adeiladu. Cododd ein Cynnig Cyfranddaliadau gynt dros £1.2 miliwn gan aelodau; ein nod yw codi £100,000 pellach er mwyn ad-dalu ein benthyciad olaf.

Estynnwn wahoddiad i chi ddod yn Aelod o'r Gymdeithas. Gallwch danysgrifio i'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn am gyn lleied â £100. Disgwylir i aelodau dderbyn dychweliad teg ar fuddsoddiadau gyda rhagamcan o 5.0% IRR.

Mae'n strwythur yn seiliedig ar Gymdeithasau Adnewyddadwy llwyddiannus eraill ar draws y DU, gan

## CYNNWYS

LLYTHYR Y CYFARWYDDWYR

DATGANIAD

CRYNODEB O'R CYNIG

TROSOLWG O'R BUSNES

RHAGAMCANION ARIANNOL

FFACTORAU RISG

RHEOLAETH A GWEINYDDIAETH

CYNNIG CYFRANDDALIADAU

AMODAU A THELERAU

GEIRFA

gynnwys sawl tyrbin gwynt sy'n eiddo i'r gymuned, ac mae gennym berthynas hirdymor wych gyda pherchennog y tir.

Yn y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau hon, cewch yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn i chi benderfynu a yw'r buddsoddiad hwn yn iawn i chi ai peidio.

Gobeithiwn y penderfynwch ymuno â ni a dod yn Aelod o Ynni Sir Gâr.

Y Cyfarwyddwyr

Greg Parker



Lynne Colston



Tom Defis



Paul Thomas



Mari Arthur



## Datganiad

Trwy hyn, mae'r Cyfarwyddwyr yn datgan fod yr wybodaeth sydd yn y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau hon, hyd y gwyddom, yn unol â'r ffeithiau ac nid oes unrhyw beth wedi ei hepgor a fyddai'n debygol o effeithio ar ei hystyr.

## Crynodeb o'r Cynnig

Dyma grynodeb o'r cynnig i fod yn berchen ar gyfranddaliadau yn Ynni Sir Gâr Cyf ('y Gymdeithas'). Dylid darllen y crynodeb hwn fel cyflwyniad yn unig a dylid gwneud unrhyw benderfyniad i fuddsoddi ar sail y ddogfen gyfan.

### Cyflwyniad

Pwrpas y Cynnig Cyfranddaliadau hwn yw codi arian er mwyn cwblhau'r trefniadau cyllido trwy Gyfranddaliadau sy'n eiddo i'r gymuned ar gyfer tyrbin gwynt 500kW ger Salem yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Gymdeithas yn gwneud cynnydd da at ei nod o gynhyrchu ynni erbyn Mehefin 2016.

### Y Gymdeithas

Pwrpas y Gymdeithas yw cynhyrchu trydan carbon-isel a dod â budd i'r gymuned leol. Bydd y trydan a gynhyrchir gan y tyrbin gwynt 550kW ger pentref Salem yn Sir Gâr yn mynd i'r grid lleol ac amcangyfrifir y bydd y prosiect yn disodli gwerth 820 tonnelli o garbon deuocsid y flwyddyn. Bydd y Gymdeithas yn creu incwm o werthu trydan i'r grid ac o'r Tariff Cyflenwi Trydan. Nod y Gymdeithas yw gwneud taliadau llog i'r aelodau, dychwelyd yr arian cyfalaf i gyd o fewn yr 17 mlynedd nesaf (y cyfnod sydd â sicrwydd o dderbyn taliadau Tariff Cyflenwi Trydan) yn amodol ar berfformiad ariannol.

### Y Cynnig

Nod y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau hon yw codi £100,000 trwy gynnig Cyfranddaliadau am £1, sy'n daladwy'n llawn adeg cyflwyno'r cais. Agorir y cynnig i geisiadau ar 1/11/2019 a bydd yn cau ar 24/12/2019.

Bydd y Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn ein galluogi i ad-dalu benthyciadau dros dro nawr bod y gwaith o osod y tyrbin gwynt wedi ei gwblhau.

**O gyfanswm y Cyfranddaliadau sydd ar gael, y nod yw codi £100,000, sef y swm sy'n weddill o fenthyciadau go gyfer adeiladu a chynnal cychwynol y tyrbin.**

Buddsoddiad tymor hir yw'r Cyfranddaliadau hyn. Gall ymgeiswyr danysgrifio am o leiaf 100 ac uchafswm o 100,000 o gyfranddaliadau, am eu llawn werth o £1.

Cyfrifir yr elw i'r Aelodau gan ddefnyddio'r casgliadau a nodir yn y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau hon. Mae'r elw a amcangyfrifir dros oes debygol y Prosiect ar gyfradd o 5.0% IRR.

Ni chaiff cyfranddaliadau eu gwerthu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig ac nid oes modd eu trosglwyddo. Gall aelodau wneud cais i dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl ar ôl tair blynedd o weithredu. Mae tynnu cyfranddaliadau yn ôl yn digwydd ar ddisgresiwn y bwrdd. Bwriad y Gymdeithas yw ad-dalu cyfalaf cyfranddaliadau'r aelodau dros gyfnod o 17 mlynedd (y cyfnod sydd â sicrwydd o dderbyn taliadau Tariff Cyflenwi Trydan), yn amodol ar berfformiad ariannol a'r arian fydd ar gael.

O'r 18fed flwyddyn, bydd y Gymdeithas yn parhau i weithredu er budd y gymuned, fel y bydd gweddill ei Haelodau'n cyfarwyddo, ond ni fydd yn talu llog i'r Aelodau. Ar ddiwedd y 25ain flwyddyn o weithredu, bwriad y Gymdeithas yw datgomisiynu'r tyrbîn gwynt a bydd angen adfer y safle. Bydd y costau yma'n cael eu talu o incwm y flwyddyn olaf, a bydd unrhyw swm fydd dros ben ar gael i'r gronfa gymunedol. Mae ein caniatâd cynllunio ar gyfer cyfnod o 28 mlynedd gan ganiatáu amser i adeiladu a datgomisiynu bob ochr i'r cyfnod gweithio 25 mlynedd.

Mae pob cyfranddaliwr, beth bynnag fo'i gyfran, yn dod yn aelod cyfartal o'r Gymdeithas yn awtomatig ar sail 'un aelod un bleidlais'.

## Y Risgiau

Mae pob gweithgaredd buddsoddi a masnachol yn dod a'i risg ei hun. Dylai'r darpar Aelodau gymryd cyngor priodol a gwneud eu hasesiadau risg eu hunain, gan gadw mewn cof beth yw agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol y Prosiect.

**Dylai'r rheiny sydd â diddordeb mewn buddsoddi wneud hynny ar ôl darllen y ddogfen hon yn llawn a chymryd cyngor ariannol a chyngor arall fel sy'n briodol.**

**Nid yw'r cynnig cyfranddaliadau hwn wedi ei warchod gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol na Chynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol.**

# Trosolwg o'r Busnes

Mae'r rhan hon yn rhoi cefndir y Prosiect a'r sefydliadau sydd wedi ei lunio.

## Cymdeithasau Ynni Adnewyddadwy

Y Gymdeithas ynni adnewyddadwy gyntaf yn y DU oedd Baywind yn Cumbria a sefydlwyd yn 1997. Bellach, mae cymdeithasau ynni adnewyddadwy ledled y DU ac ym mhob maes technoleg.

Mae Cymdeithasau Budd Cymunedol, fel hon, yn strwythurau democrataidd gyda'r gallu cyfreithiol i godi arian yn uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd. Gyda system 'un aelod un bleidlais' a bwrdd wedi'i ethol o blith yr aelodaeth, maen nhw'n cynnig ffordd deg a thryloyw o weithredu menter ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Gallant hefyd flaenoriaethu buddsoddiad o'r ardal leol, gan sicrhau bod budd ariannol o ynni adnewyddadwy yn dod i'r ardal leol. Cofrestrwyd y cymdeithasau gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

## Ynni Sir Gâr

Cafodd Ynni Sir Gâr Cyfyngedig ei hymgorffori a'i chofrestru gydag Awdurdod Ymddygiad Ariannol y DU fel Cymdeithas Budd Cymunedol rhif 31915R ar 05 Rhagfyr 2012. Buan y recriwtiodd y cyfarwyddwyr cyntaf sgiliau o ran cyfarwyddwyr newydd yn ystod y tri Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol a gynhaliwyd wrth ddatblygu portffolio o gynlluniau. Mae 5 Cyfarwyddwr ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, caiff y cyfarwyddwyr eu hethol o blith yr aelodau.

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn seiliedig ar Reolau Model Cooperative UK ar gyfer Cymdeithas Budd Cymunedol. Mae copi o Reolau Ynni Sir Gâr ar gael drwy wneud cais i'r Gymdeithas (gweler cefn y Ddogfen hon am fanylion cyswllt).

## Prosiectau Eraill

Ar hyn o bryd, mae gan Ynni Sir Gâr bortffolio bychan o gynlluniau eraill ar y gweill, gan gynnwys cynllun trydan dŵr 90kW ar afon, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, rhannu defnydd o gerbydau trydan, effeithlonrwydd ynni ac ar gamau cynharach datblygiad 'Ynni Lleol'. Y bwriad yw ariannu cynlluniau'r dyfodol, yn rhannol o leiaf, gan Gynigion Cyfranddaliadau'r dyfodol. Bydd yr un dulliau trylwyr a ddefnyddiwyd gyda'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn, o ran rhagamcanu'r ymarferoldeb ariannol a thechnegol, yn digwydd er mwyn sicrhau na fydd unrhyw brosiect newydd yn peri risg i'r gronfa gymunedol neu'r IRR sy'n daladwy i danysgrifwyr y Cynnig hwn. Mantais gadarnhaol i hyn yw lledaenu'r risg a ddaw yn sgil portffolio cynyddol o brosiectau. Ni fydd unrhyw brosiect heb ragamcanion cryf sy'n dangos IRR cyfatebol i'r Cynnig hwn, neu'n fwy, ynghyd â chyfraniad at gronfa gymunedol mwy o faint, yn cael ei ddatblygu gan y Gymdeithas.

## Y Prosiect

Mae'r tyrbîn gwynt wedi bod yn cynhyrchu trydan am dros 3 mlynedd ac wedi cynhyrchu 4.3GWh o drydan, gan gynhyrchu dros £800,000 o incwm hyd yn hyn.

Mae'r safle ei hun ar dir pori ar fferm weithiol, ac mae'r tyrbîn tua 400m o'r annedd agosaf. Y rhagamcan o fuanedd gwynt cymedrig blynyddol y safle yw 7.1m/e ar uchder yr hyb. Mae yna les mewn lle gyda pherchennog y tir, a fydd yn elwa o daliadau rhentu yn ystod oes y prosiect, a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at gynaliadwyedd busnes y fferm a thrwy hynny at yr economi lleol, sydd y bennaf amaethyddol. Er bod y dirwedd yn lleoliad gwledig, deniadol, nid yw'r tyrbîn wedi'i leoli o fewn unrhyw ardaloedd tirwedd wedi eu dynodi, ac ni ystyrir y bydd yn cael unrhyw effaith sylweddol arnynt.

## Y Dechnoleg

Y generadur gwynt a ddewiswyd ar gyfer y safle hwn yw'r Enercon E-48, gydag uchder hwb o 50m ac uchder blaen llafnau o 74 metr. Mae Enercon yn wneuthurwr blaengar yn y farchnad generaduron gwynt gyda record gref o gyflenwi tyrbînau sengl ar gyfer safleoedd sy'n eiddo i'r gymuned ar draws y DU, gyda sawl tyrbîn o'r dosbarth hwn ar draws Gorllewin Cymru. Rydyn ni'n cymryd cytundeb cynnal a chadw llawn gan gynnwys gwarantiau perfformiad ac argaeledd sy'n dod fel mater o drefn gyda'r tyrbîn. Cyfrifwyd yr ynni a gynhyrchir drwy gymorth arbenigwr cydnabyddedig yn y diwydiant, ac mae ei adroddiad yn rhagweld cynhyrchu ynni ar P50 o 1,525,000kWh (cynnyrch cyfartalog disgwylidig) a P90 o 1331,000 kWh/y flwyddyn (cynnyrch isaf disgwylidig). Mae'r ffigurau ariannol yn yr adroddiad hwn wedi eu seilio ar ragamcan P50.

## Gwerthiant Trydan

Caiff y trydan o'r tyrbîn ei gludo i'r rhwydwaith lleol. Rydyn ni wedi'n contractio i werthu'r trydan i gwmni ynni Good Energy, am flwyddyn gyntaf y prosiect, gyda phris canllaw o 6/7c bob kWh. Gallai'r pris hwn amrywio a defnyddiwyd y ffigwr is o 4.85c/kWh ar gyfer y rhagamcanion ariannol. Mae'r Gymdeithas yn parhau i geisio codi cymaint o incwm a phosibl drwy gael dyfynbrisiau gan brif brynwyr trydan adnewyddadwy er mwyn cael y pris gorau, gan ddefnyddio llwyfannau masnachu neu drwy werthu ynni'n uniongyrchol i ddefnyddwyr cyfagos trwy gwmni masnachu trydan arbennig (os ddaw hyn i fod yn bosibilrwydd).

Yn ogystal â hyn, bydd y Gymdeithas yn derbyn y Tariff Cyflenwi Trydan o 13c/kWh (indecs cyswllt). Cafwyd achrediad cychwynnol ar gyfer y Tariff Cyflenwi Trydan ym mis Medi 2015 er mwyn sicrhau bod y gyfradd oedd yn bodoli'r adeg honno'n gymwys i'r prosiect hwn.

## Effaith Economaidd ar y Gymuned

Bydd y prosiect yn cynhyrchu amrediad o effeithiau economaidd, gan gynnwys y manteision allweddol canlynol:

- 1 Sefydlu cynllun sy'n cefnogi preswylwyr, busnesau a sefydliadau cymunedol lleol gyda grantiau.
- 2 Cefnogi datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy yn Sir Gâr gan ddod â mwy o incwm i'r ardal.
- 3 Taliadau i Seren Renewables a thirfeddiannwr lleol, gan gynnal busnes a fferm leol.
- 4 Talu llog i'r Aelodau.

Mae'r Gymdeithas wedi gwneud rhagolygon ariannol ar sawl sefyllfa gynhyrchu ac allforio wahanol, ac mae'r sefyllfa fwyaf ceidwadol yn dangos y bydd modd sefydlu cronfa gymunedol gydag incwm o dros £1,300,000 (un miliwn tri chan mil) ar ôl 25 mlynedd.

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu Polisi Budd Cymunedol manwl, ac mae wedi derbyn ymchwil pellach gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ynglŷn â'r budd economaidd ehangach a chreu swyddi sy'n gysylltiedig ag ariannu gosodiadau effeithlonrwydd ynni a microadnewyddadwy. Gweler ein gwefan am fanylion pellach.

### Cytundebau Cyfreithiol

Mae'r Gymdeithas wedi cymryd les 28 mlynedd ar y safle, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer meddiannu'r tir, mynediad ar gyfer cysylltiad y grid a mynediad ar gyfer gwaith gweithredu a chynnal a chadw parhaus.

### Amserlen y Prosiect

Dyma amserlen sy'n dangos y cynnydd a fwriedir ar gyfer y Prosiect o'r adeg hon ymlaen:

Mawrth 2016	Gwaith sifil a thrydanol ar y safle wedi'i gwblhau.
Ebrill 2016	Tyrbin wedi cyrraedd y safle a'i gomisiynu. Lansio'r Ail Gynnig Cyfranddaliadau
Mai 2016	Tyrbin yn llwyr weithredol ac yn cynhyrchu.
Mehafin 2016	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (i aelodau presennol).
Gorffennaf 2016	2 <sup>il</sup> Gam y Cynnig Cyfranddaliadau yn Dod i Ben. Cyfleuster benthyciad adeiladu Seren Renewables yn dod i ben.
Tachwedd 2016	Cyfleuster benthyciad adeiladu Ynni'r Fro'n dod i ben.



Haf 2017	2 <sup>il</sup> Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas – taliadau cyntaf i Aelodau.
Rhagfyr 2018	3 <sup>ydd</sup> Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas.
Rhagfyr 2019	4 <sup>ydd</sup> Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas. Aelodaeth erbyn hyn wedi eu talu 5.6% o adenillion ar eu buddsoddiad

## Rhagamcanion Ariannol

Cyfanswm cost y tyrbin, ei osod a chostau'r prosiect yw £1.7 miliwn. Bydd Ynni Sir Gâr yn wynebu'r holl gostau gweithredu a ddaw yn sgil gosod y tyrbin a byddant yn trafod gwerthu'r trydan a'r budd a ddaw o'r Tariff Cyflenwi Trydan ac unrhyw fentrau eraill ar y pryd neu yn y dyfodol.

Cafwyd Cynnig Cyfranddaliadau blaengar ym mis Hydref 2015 a chodwyd cyfanswm o £349,049 tuag at gostau adeiladu'r Prosiect. Mi wnaeth yr ail Gynnig Cyfranddaliad godi £800,000 ac fe wnaethom ad-dalu Banc Datblygu Cymru. Mae'r Gymdeithas wedi ad-dalu'r mwyafrif o'r benthyciadau a'i cafwyd (o fewn y telerau y cytunwyd arnynt) ac angen £100,000 sy'n weddill. Mae bosib ad-dalu hwn trwy incwm, ond fe hoffwn ni gynnig y cyfle am aelodaeth newydd.

Ariannodd rhaglen grant Ynni'r Fro (Ynni Lleol) ein gwaith cyfreithiol ac mae hefyd wedi darparu cyfleuster benthyciad byrdymor o £785,000 (@7.5%) i helpu ariannu gwaith adeiladu'r prosiect. Ad-dalwyd- y benthyciad hwn yn Rhagfyr 2017. Daeth cyllid dros dro arall gan y gosodwyr, Seren Renewables. Cafwyd eu benthyciadau eu had-dalu yn 2016.

Mi wnaeth y Gymdeithas sicrhau benthyciad ôl-adeiladu o £240,000 gyda benthyciwr cymdeithasol. Rydym wedi ad-dalu y rhan fwyaf o'r swm hon.

Yn annhebyg i Gynigion Cyfranddaliadau blaenorol, nid oes angen rhagolygon. Mae perfformiadau diweddar y gorffennol wedi cadarnhau rhagolygon o gynhyrchiad a chyllid.

Cyfrifir rhagamcanion yr elw i'r Aelodau yn ôl yr incwm a'r gwariant a ragamcannir yn ystod oes y System. Mae'r model ariannol a ragamcannir yn cynnwys dychweliad cyfalaf yr Aelodau dros y cyfnod y telir y Tariff Cyflenwi Trydan, er bod disgwyl i'r tyrbin ei hun weithredu dros gyfnod o 25 mlynedd, gan ennill incwm o'r trydan a werthir yn unig yn ystod y pum mlynedd olaf o weithredu.

Ar ddiwedd y les, gall y Gymdeithas ddewis cyfnewid y tyrbin ai peidio, a pharhau gyda'r busnes neu roi'r gorau iddi, yn ôl busnes y Gymdeithas ar yr adeg honno ac yn amodol ar unrhyw estyniad angenrheidiol i les neu ganiatâd cynllunio.

## *Lwfans Cynilion Personol*

Bydd Incwm o Gyfranddaliadau yn y prosiect hwn yn gymwys i'r Lwfans Cynilion Personol newydd. Mae hyn yn golygu, i lawer o Aelodau, na fydd unrhyw atebolrwydd treth incwm ar y taliadau llog. Am fanylion y Lwfans, gweler taflen ffeithiau'r Llywodraeth<sup>1</sup>.

### **Cyllideb**

Pwrpas y cynnig hwn yw codi arian yn benodol er mwyn ad-dalu'r benthyciadau byrdymor a ddefnyddiwyd i gyllido'r cam adeiladu, fel yr amlinellwyd uchod. Dylai Aelodau potensial gymryd y bydd yr holl danysgrifiadau i'r cynnig hwn yn cael eu defnyddio tuag at ostwng y gweddill ar y benthyciadau.

### *Rhagdybiaethau*

Mae'r Rhagamcanion yn seiliedig ar y prif ragdybiaethau canlynol:

1. Y bydd y Cynnig Cyfranddaliadau hwn ac unrhyw Gynigion dilynol yn codi'r holl arian sydd ei angen ac na fydd angen defnyddio cyfleusterau benthyciad ar delerau llai ffafriol na'r rheiny sydd eisoes mewn lle. Pe bai angen defnyddio cyfleusterau benthyciad ar delerau gwaeth, byddai'r elw i'r aelodau'n lleihau. Defnyddir y cyfleusterau benthyciad sydd a'r telerau gorau i'r Gymdeithas i ddechrau.
2. Y bydd yr ynni blynyddol a gynhyrchir yn unol â'r amcangyfrifon a wnaed. Pe bai'r ynni blynyddol a gynhyrchir yn disgyn yn is na'r lefelau a ragamcannir, byddai refeniw'r Gymdeithas yn gostwng. Os digwydd bod nam technegol, bydd y Gymdeithas yn ymdrechu i wneud yn siŵr fod hyn wedi ei gynnwys o dan warant a/neu yswiriant. Fodd bynnag, efallai na fydd y rhain yn cwmpasu'r holl bosibiliadau.
3. Y bydd y rhagamcanion dros y 25 mlynedd nesaf yn profi'n rhesymol gywir o ran y farchnad ynni fyd-eang a'r diwydiant trydan yn y DU, gan arwain at alw parhaus am y trydan a gynhyrchir gan y gosodiad.
4. Ymrwymiad hanesyddol y Llywodraeth i gadw cyfradd y Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer prosiectau cyfredol ar y graddau presennol er gwaethaf unrhyw doriadau i brosiectau'r dyfodol.
5. Y bydd modd cael Cytundeb Prynu Pŵer am o leiaf 4.85c/kWh, cyn chwyddiant, trwy gydol oes y prosiect.
6. Y bydd costau gweithredu a chynnal a chadw yn codi o gychwyn y gweithrediadau ac ni fyddant yn codi ddim uwch na graddfa chwyddiant.

**Mae rhagamcanion a rhagdybiaethau fel y rhai uchod yn anochel yn mynd i fod yn llai dibynnol dros gyfnodau hirach o amser.**

---

<sup>1</sup> Ar gael ar <https://goo.gl/gP3U4l>

## Nodiadau ar y Rhagamcanion Ariannol

1. Mae'r rhagamcanion yn y ddogfen hon yn seiliedig ar waith a wnaed gan y Bwrdd, gyda chymorth rhaglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru, Cronfa Ynni Cymunedol Banc Cymunedol Robert Owen, a Sharenergy
2. Mae chwyddiant wedi ei osod ar 2% y flwyddyn dros gyfnod o 25 mlynedd.
3. Mae'r incwm wedi'i seilio ar gyfraddau cynhyrchu Tariff Cyflenwi Trydan sefydlog, sef 13c/kWh, a gwerthiant trydan o 4.85c/kWh (cyfradd allforio trydan presennol y Tariff Cyflenwi Trydan)
4. Mae dibrisiant yr offer yn llinol dros yr 20 mlynedd ac mae'n creu cronfa i ad-dalu cyfalaf yr Aelodau. Mae'r cyfalaf wedi ei fodelu fel arian a delir yn flynyddol i'r Aelodau ar ôl 3 blynedd yn amodol ar gynnal arian wrth gefn o fewn y Gymdeithas.
5. Gosodir y cyfraddau busnes yn ôl achos a godwyd gyda'r swyddfa brisio ymlaen llaw, ac maen nhw'n ystyried gostyngiad o 60% yn y cyfraddau, y gobeithir y byddwn yn gymwys i'w dderbyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
6. Mae'r costau yswiriant wedi eu pennu ar £3,000 y flwyddyn, sydd ychydig yn uwch na'r yswiriant presennol o £2,500 sydd mewn lle ar gyfer blwyddyn gyntaf y gweithrediadau.
7. Mae'r gwaith cynnal a chadw wedi ei gynnwys yn y cytundeb gyda chyflenwr y tyrbîn am y 15 mlynedd cyntaf, gyda chyllideb cynnal a chadw ychwanegol wedi ei phennu yn y rhagamcanion ar gyfer cyfnod y prosiect. Sylwer fod y costau cynnal a chadw a ragamcannwyd wedi codi ychydig ers y Cynnig Cyfranddaliadau cyntaf gan fod contract terfynol wedi ei lofnodi erbyn hyn.
8. Gosodwyd y llog ar yr arian yn y banc yn geidwadol iawn ar 0% am yr 20 mlynedd gyfan.
9. Rhoddir unrhyw warged i'r Gronfa Gymunedol felly nid yw'r rhagamcanion yn darogan atebolrwydd am Dreth Gorfforaeth. Sylwer y gallai Aelodau fod yn atebol i dalu Treth Incwm ar eu taliadau llog (os nad yw cyfanswm y llog sy'n dod i'w llaw yn dod o dan y Lwfans Cynilion Personol newydd)
10. Disgwylir i'r gwariant ariannol misol arferol fod yn fychan a bydd hen ddigon i ddarparu ar ei gyfer o'r incwm o gynhyrchu a'r Tariff Cyflenwi Trydan. Rhagwela'r rhagamcanion y bydd y Gymdeithas yn ariannol bositif bob blwyddyn o gychwyn y gweithrediadau.

12. Mae gan y Cyfarwyddwyr gytundeb ffurfiol gyda Seren Renewables Ltd i wneud taliadau blynyddol i gydnabod y gwaith a'r buddsoddiad sylweddol a wnaed ganddynt i sicrhau'r caniatâd cynllunio a'r opsiynau les cychwynnol ar y safle. Bydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud yn gyfartal â'r taliadau a roddir i'r gymuned. Cânt eu talu'n flynyddol am gyfnod gweithredu'r tyrbîn gwynt (25 mlynedd). Ni osodwyd unrhyw isafswm taliad blynyddol os digwydd i'r cynhyrchiant neu'r perfformiad fod yn wan, ac felly nid oes unrhyw risg ychwanegol a allai godi o'r cytundeb i'r perwyl hwn.
13. Mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu gosod gwarged net o'r cynllun mewn cronfa gymunedol, gan ddarparu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a phrosiectau eraill sy'n lleihau'r defnydd o garbon ar draws pob sector yn Sir Gaerfyrddin. Rhagwelir y bydd y gronfa hon yn lleiafswm o £1,300,000 mewn gwerth dros gyfnod y 25 mlynedd o weithredu, a chytunir arni'n flynyddol ar sail talu'r costau eraill i gyd yn gyntaf a'r goblygiadau a nodir yn y ddogfen Gynnig hon.

**Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar gyfnod o 20 mlynedd o'r Tariff Cyflenwi Trydan, a gweithredu am bum mlynedd arall ar sail gwerthu'r trydan yn unig.**

## Ffactorau Risg

Mae pob buddsoddiad a gweithgaredd masnachol yn golygu risg, a dylai buddsoddwyr gymryd cyngor priodol a gwneud eu hasesiad risg eu hunain gan gadw mewn cof agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol y cyfle hwn i fuddsoddi. Tynnir sylw at y canlynol:

### Risgiau buddsoddi cyffredinol

- Gall gwerth y cyfranddaliadau godi a gostwng yn ôl gwerth y busnes ei hun.
- Ni fydd modd trosglwyddo Cyfranddaliadau na'u masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig.
- Gall yr aelodau sydd am dynnu eu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl wneud cais i'r Bwrdd ar ôl y drydedd flwyddyn o weithredu. Mae tynnu arian cyfalaf yn ôl yn digwydd ar ddisgresiwn y Bwrdd.

### Risgiau'r diwydiant ynni adnewyddadwy

- Gall polisi'r llywodraeth tuag at ynni adnewyddadwy newid. Trwy gydol gweithrediad y Tariff Cyflenwi Trydan mae'r Llywodraethau olynol wedi cadw'r ymrwymiad i'r broses drwy'r cenedlaethau sy'n sicrhau y bydd y tariff y cofrestrir prosiect ar ei gyfer ar gychwyn y gweithrediadau, yn aros yr un fath trwy gydol cyfnod 20 mlynedd y Tariff Cyflenwi Trydan. Mae'r taliad hwn hefyd wedi ei gysylltu trwy indecs at yr RPI.
- Gallai technoleg newydd, dyfeisiadau a datblygiadau wneud technoleg ac offer cyfredol yn ddiwerth. Ond, mae tyrbinau gwynt yn dechnoleg ddatblygedig ac rydym wedi dewis model blaengar fel y bydd datblygiadau technolegol o'r maint hwn o fewn oes y prosiect yn annhebygol.
- Gallai newidiadau tymor hir i batrymau'r tywydd arwain at lefelau cynhyrchu is. Ond, nid oes tystiolaeth y gwyr y Gymdeithas amdani y bydd hyn yn effeithio ar gynhyrchu trydan yn y safle yma. Gallai amodau tywydd anarferol yn y tymor byr effeithio ar lefelau cynhyrchu, er bod y patrymau cyffredinol y tu allan i'r ffiniau a ragwelir yn annhebygol.

### Risgiau penodol i'r Gymdeithas

- Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar yr ynni y rhagwelir y bydd yn cael ei gynhyrchu ar sail modelu cyfrifiadurol buanedd y gwynt ar y safle. Pe bai'r symiau ynni yn is ar gyfartaledd dros gyfnod y prosiect, yna byddai elw'r aelodau'n debygol o ostwng. Ond, defnyddiwyd casgliadau rhesymol gan ddefnyddio dulliau safonol y diwydiant.
- Byddai methiant yr offer oherwydd amgylchiadau eithriadol yn cynyddu'r costau cynnal a chadw a byddai hyn yn cael effaith ar incwm y Gymdeithas. Ond, bydd gwarantau mewn lle ar gyfer y tyrbinau ac offer eraill a cholli incwm. Bydd difrod damweiniol a maleisus wedi ei gynnwys hefyd yn yr yswiriant a bydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn lle.

- Gallai unrhyw newidiadau i'r Tariff Cyflenwi Trydan fyddai'n digwydd cyn i'r tyrbin gael ei gomisiynu, arwain at newid yn y rhagamcanion, neu yn yr achos gwaethaf, wneud y prosiect yn anymarferol. Ond mae'r Gymdeithas wedi cael Achrediad Cychwynnol i sicrhau bod y lefel Tariff Cyflenwi Trydan a fodelwyd ar gael, ac adeg ysgrifennu rydyn ni ar fin comisiynu gyda 9 mis ar ôl cyn i hyn ddirwyn i ben. Pe bai'r gwaith comisiynu'n cael ei oedi mewn modd fel na fyddai'r Tariff Cyflenwi Trydan yma ar gael, byddai'r elw a ragdybiwyd i'r Aelodau'n lleihau.
- Mae'r rhagamcanion yn darparu ar gyfer cyfleuster benthyciad o £500,000 yn y dyfodol, ar 7%, i'w ad-dalu dros 10 mlynedd. Tra bod angen cytuno ar union delerau unrhyw fenthyciad, disgwylir y bydd unrhyw fenthyciwr ôl-adeiladu hefyd â'r hawl cyfreithiol i gymryd perchnogaeth dros y prosiect fel yr opsiwn olaf un, os nad yw'r taliadau'n cael eu talu.
- Mae'r Gymdeithas hefyd yn datblygu prosiectau eraill. Ni chynigir defnyddio unrhyw arian gan Aelodau o'r Cynnig hwn ar gyfer y rhain, ond os yw'r Gymdeithas yn ffurfio'r prosiectau hyn yn uniongyrchol, yna bydd Aelodau'r Gymdeithas yn agored i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hynny. Caiff prosiectau eu datblygu tu hwnt i ddichonoldeb dim ond gyda chaniatâd Aelodau.

# Rheolaeth a Gweinyddiaeth

Mae'r rhan hon yn rhoi gwybodaeth am y Bwrdd a rhedeg y Gymdeithas.

## Y Bwrdd

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn agored i Aelodau presennol bleidleisio a sefyll i ddod y Gyfarwyddwyr yn unig. Mae croeso i Aelodau potensial newydd ddod i'r cyfarfod fel arsylwyr.

## *Bywgraffiadau*

### **Greg Parker - Cadeirydd**

Mae Greg wedi rhedeg ei fusnes datblygu meddalwedd am dros 20 mlynedd, yn gyfrifol am ddatblygu systemau amryw i cleientiaid eang, o sefydliadau rhyngwladol mawr i busnessau lleol yn Sir Gâr: [www.solutions-factory.co.uk](http://www.solutions-factory.co.uk). Mae Greg hefyd yn gyfarwyddwr o'r busnes rheoli lleoliadau [www.venuemanagement.systems](http://www.venuemanagement.systems), business yswiriant a chyllid [www.cpu.co.uk](http://www.cpu.co.uk), a cyfarwyddwr IT go gyfer y Ganolfan Ymchwil am Celf Clasurrol [www.carc.ox.ac.uk](http://www.carc.ox.ac.uk). Mae'n defnyddio'r profiadau yma i weithredu system meddalwedd i Ynni Sir Gâr i sicrhau atebolrwydd, llywodraethiant a effeithlonrwydd. Mae gan Greg diddordeb mawr mewn ynni adnewyddadwy, gyda'i prosiect ynni solar ei hun a system thermal solar ers 2011, car trydan ers 2015 ac yn datblygu busnes ynni hydro newydd ar hyn o bryd.

### **Lynne Colston – Arbenigwraig ar Gyflogaeth**

Mae Lynne yn gydymaith partneriaeth strategol i O Fudd-dâl i Waith ac Adfywio ac mae wedi gweithio i brif gytundebwyr fel Serco er mwyn galluogi sefydliadau llai yn y gymuned i fynd i'r farchnad hyfforddiant gwaith a sgiliau. Ar hyn o bryd, mae'n gydymaith partneriaeth i GrEW, EtAS Energy lle mae'n gweithio i adnabod ac asesu partneriaid a darparwyr gyda'r arloesi a'r ysgogiad i gyflwyno gwasanaethau ar gyfer amrediad eang o gytundebau strategol. Mae Lynn hefyd yn fentor Adfywio Cymru.

### **Mari Arthur - Ysgrifennydd**

Mae gan Mari cefndir yn meysydd marchnata a datblygu busnes ac ar hyn o bryd yn Partner yn Afallen PAC. Mae gan Mari angerdd dros materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, gwleidyddiaeth a cyfathrebu effeithiol ac am fod yn rhan o greu Cymru mwy hyfyw trwy ddulliau cymunedol. Fel un o gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr a Cymru Gynnes ac yn Gadeirydd i Banel Ymgynghorol Annibynnol ar yr Amgylchedd i Dŵr Cymru mae Mari am fod yn rhan o'r mudiad dros ynni adnewyddadwy sydd yn lliniaru tlodi tanwydd a newid hinsawdd.

## **Tom Defis - Trysorydd**

Mae Tom wedi bod yn Gyngorydd Sir Gâr dros Orllewin Tref Caerfyrddin ers 2012. Mae ar Bwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Panel Adolygu Tai (cyflenwi) dros y sir ac mae hefyd yn llywodraethwr ysgol. Mae hefyd yn gydlynnydd Cymorth Cristnogol i Orllewin Cymru, sy'n sefydliad sydd â'r nod o drechu tlodi a mynd i'r afael â'i effaith yn ogystal â'i achosion.

## **Paul Thomas – Aelod**

Paul yw cydlynnydd Prosiect Gweithredu Ynni Lleol Menter Cwm Gwendraeth Elli, gyda'r nod o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd ynni yn y Sir. Cyn hyn, roedd yn swyddog prosiect gyda phrosiectau cymunedol Dyfodol Di-Garbon a Chymunedau Di-Garbon, a ariannwyd gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Nod y ddau brosiect oedd gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir gynaliadwy, carbon isel.

## **Cyfranddaliadau presennol ac arfaethedig y Cyfarwyddwyr**

Mae cyfanswm cyfranddaliadau presennol Cyfarwyddwyr a'u teulu agosaf yn £150,000.

Ni ddisgwylir unrhyw gyfranddaliadau pellach gan Gyfarwyddwyr na'u teulu agosaf.

## **Datgeliad**

Nid oes yr un o gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr, dros y pum mlynedd diwethaf o leiaf, wedi derbyn unrhyw euogfarnau, (am unrhyw drosedd o dwyll neu fel arall), nac wedi bod yn rhan o unrhyw fethdaliadau na derbynyddiad, nac wedi derbyn unrhyw wrthgyhuddiad neu ataliad cyhoeddus gan awdurdod statudol neu reoleiddiol na chorff proffesiynol penodedig, nac wedi eu diarddel o unrhyw swyddogaeth gan unrhyw lys.

## **Gwrthdaro Buddiannau**

Pan fydd unrhyw gyfarwyddwr yn datgelu neu'n amlygu gwrthdaro buddiannau, gofynnir i'r cyfarwyddwr hwnnw fod yn absennol o'r trafodaethau.

## **Cydnabyddiaeth**

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r Cyfarwyddwyr gan y Gymdeithas. Mae gan bob Cyfarwyddwr yr hawl i ffioedd a/neu gostau sydd heb fod yn fwy na £50 y flwyddyn yn ychwanegol at gostau teithio. Bydd ceisiadau am gyfranddaliadau gan y Cyfarwyddwyr yn cael eu bodloni'n llawn, ond nid oes cynlluniau pensiwn, cynlluniau dewis cyfranddaliadau, a, heblaw am ad-dalu costau, nid oes unrhyw fudd arall i'r Cyfarwyddwyr.

## **Arferion y Bwrdd**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gweithredu'n unol â'r Rheolau. Nid oes unrhyw gytundebau gwasanaeth iddyn nhw na'r Ysgrifennydd. Mae ganddom 4



gweithiwr cyflogedig ar hyn o bryd, wedi eu harinanu gan LEADER ac nid yw'r busnes yn ddibynnol ar unigolion allweddol. Caiff y gweithrediadau o ddydd i ddydd eu rheoli gan y Rheolwr dan oruchwyliaeth y Bwrdd.

Fel Cymdeithas Budd Cymunedol, mae Ynni Sir Gâr yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a rhai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gan na fydd y Cyfranddaliadau wedi eu rhestru, nid yw'n ofynnol i Ynni Sir Gâr gydymffurfio â'r Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol.

### Cyfrifon

Daeth Ynni Sir Gâr yn gwmni corfforedig ar 05/12/2012. Mae diwedd ei flwyddyn ariannol ar 31/12/18. Adeg cychwyn cynnig y cyfranddaliadau, roedd 1.2 miliwn o gyfranddaliadau wedi cael eu cynnig. Ceir manylion trafodion eraill sydd ynghlwm ag adeiladu'r prosiect yn y cyfrifon. Mae cyfrifon 2017 ar gael ar gais. Fe fydd cyfrifon 2018 ar gael i Aelodau presennol ac arfaethedig o mis Rhagfyr 2019.

### Polisi Llog

Bydd Cyfranddaliadau'r Aelodau'n denu ôl-daliad llog blynyddol. Bydd cyfraddau llog yn amrywio yn ôl perfformiad ariannol.

### Gweithredoedd Cyfreithiol

Ni fu unrhyw weithgaredd llywodraethol, cyfreithiol na chyflafareddiad yn ymwneud â'r Prosiect nac Ynni Sir Gâr ac nid oes yr un yn aros neu yn bygwth a allai gael effaith sylweddol ar safle ariannol neu broffidioldeb y Gymdeithas.

### Rheolau'r Gymdeithas

Mae Cymdeithasau Budd Cymunedol yn cael eu llywodraethu gan Reolau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae copi o'r Rheolau ar gael gan y Gymdeithas (gweler y manylion cyswllt ar dudalen gefn y cynnig hwn).

### Gwybodaeth Bellach

Mae'r dogfennau eraill y sonnir amdanynt yn y Cynnig hwn ar gael gan y Gymdeithas (gweler y manylion cyswllt ar gefn y Cynnig hwn).

Mae gwybodaeth gyffredinol a ddaeth gan drydydd parti yn y Ddogfen hon wedi ei hatgynhyrchu'n gywir. Cyn belled ag y gŵyr y Cyfarwyddwyr ac y gallant gasglu o wybodaeth a gyhoeddwyd gan y trydydd parti hwnnw, nid oes ffeithiau wedi eu hepgor a fyddai'n golygu bod yr wybodaeth a atgynhyrchwyd yn anghywir neu'n gamarweiniol.

## Cynnig Cyfranddaliadau

### Rhesymau dros y Cynnig a defnydd o'r arian

Gwneir y Cynnig hwn fel y gall:

- Ynni Sir Gâr a'i Haelodau gynhyrchu ynni adnewyddadwy a dod â budd i'r gymuned leol, yn ariannol a thrwy gynhyrchu trydan carbon isel.
- y Gymdeithas godi'r arian sydd ei angen i gwblhau ad-dalu benthyciadau am dyrbin gwynt 500kW.
- Aelodau ddod o'r gymuned leol cyn belled â bo modd.

### Cyfranddaliadau'r Cynnig

£100,000 (Un Cant Mil) o Gyfranddaliadau cyffredin o £1 am werth llawn ac i'w talu'n llawn ar ôl derbyn cais ar Amodau a Thelerau'r Ddogfen Gynnig hon. Mae'r Cyfranddaliadau, na ellir eu masnachu ar unrhyw gyfnewidfa stoc, wedi eu creu o dan Ddeddf Cymdeithas Gydwethredol a Budd Cymunedol 2014.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrifau cyfranddaliadau a chofnodir eu manylion a'u taliadau ar gofrestr cyfranddaliadau i'w chadw gan Ynni Sir Gâr Cyfyngedig, 75 Heol y Dŵr, Caerfyrddin, SA31 1PZ. Bydd unrhyw un neu sefydliad sy'n derbyn Cyfranddaliadau'n dod yn Aelod o'r Gymdeithas, gyda hawliau aelodaeth fel y'u diffinnir yn y Rheolau. Y prif hawliau yw:

- Un bleidlais i bob daliwr ar benderfyniadau'r Aelodau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â phenodi Cyfarwyddwyr.
- Yr hawl i dderbyn taliad llog blynyddol cyfrannol fel elw ar y buddsoddiad mewn cyfranddaliadau (yn amodol ar yr elw sydd ar gael).
- Yr hawl i ddychweliad y buddsoddiad gwreiddiol ar ddiwedd cyfnod y System (yn amodol ar asedau dros ben ac unrhyw fusnes newydd gan y Gymdeithas).
- Fel Aelod, byddwch yn gymwys i gael eich ethol i'r Bwrdd.

### Dyrannu'r cyfranddaliadau a gostyngiadau treth

Caiiff cyfranddaliadau eu dyrannu ar ôl y dyddiad cau. Pe bai gormod yn cynnig am gyfranddaliadau, byddai arian ceisiadau aflwyddiannus am gyfranddaliadau yn cael ei ddychwelyd at Danysgrifwyr arfaethedig yn llawn.

Rhag bod unrhyw amheuaeth, nid oes unrhyw ddsbarthiadau cyfranddaliadau eraill – mae pob cyfranddaliad pryd bynnag y cânt eu cyhoeddi yn Gyfranddaliadau Aelod yr un fath, gyda'r un hawliau'n union. Yn yr un modd, mae gan bob Aelod o'r Gymdeithas statws cyfartal.

### Taliadau llog

Telir llog ar falans cyfrif pob Aelod ar gyfradd a bennir gan y Cyfarwyddwyr ond gyda chyfradd darged o 5.0% o'r cyfalaf sy'n weddill, yn amodol ar y perfformiad ariannol blynyddol. Cyhoeddir y dyddiad y bydd yr hawl i log yn codi, bob blwyddyn. Rhagwelir y bydd unrhyw log nas hawlir am gyfnod o 7 mlynedd yn cael ei ddileu er budd pob Aelod. Mae'r taliadau llog wedi eu cyfyngu i'r gyfradd sydd ei hangen ym marn y Cyfarwyddwyr er mwyn cael a chadw'r cyfalaf sydd ei angen ar y Gymdeithas. Ni sefydlwyd unrhyw drefn arbennig ar gyfer deiliaid nad ydynt yn preswyllo yma.

### Hawliau Pleidleisio

Mae gan bob Aelod un bleidlais, waeth faint o Gyfranddaliadau sydd ganddynt. Nid oes unrhyw hawliau i rag-brynu.

### Yr hawl i ran o'r elw/gwarged

Mae gan bob Aelod yr hawl i ran o'r llog a gyhoeddir o'r elw blynyddol, ac mae taliadau o'r fath i'w rhannu'n gyfartal rhwng cyfanswm y Gyfranddaliadau a gyhoeddwyd. Golyga hyn fod gan Aelod sydd â 10,000 o gyfranddaliadau un bleidlais yn unig, ond bydd yn derbyn llog ar y 10,000 o gyfranddaliadau.

Pan ddaw'r gosodiad i ben ar ddiwedd ei oes, gallai'r Aelodau ddewis diddymu'r Gymdeithas, ac yn yr achos hwnnw, gwireddir yr asedau a defnyddir yr arian net a ddaw o hynny i ad-dalu unrhyw gyfran o gyfalaf yr Aelodau sy'n weddill. Ni thelir unrhyw warged i'r Aelodau ond caiff ei drosglwyddo i gorff arall gydag amcanion tebyg fel sy'n ofynnol yn ôl Rheolau'r Gymdeithas.

### Darpariaeth adbryniad

Efallai y bydd Gyfranddaliadau'n cael eu hadbrynu yn ôl y Rheolau. Nid oes gan yr aelodau'r hawl i dynnu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl ond mae gan Fwrdd y Gymdeithas yr hawl i ganiatáu i Gyfranddaliadau'r Gymdeithas gael eu tynnu nôl drwy gytundeb rhwng y Bwrdd a'r Aelod. Gall yr aelodau wneud cais i dynnu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl ar ôl tair blynedd o weithredu. Yn ogystal â hynny, mae gan y Bwrdd y pŵer i ddychwelyd cyfalaf i'w aelodau yn ôl ei ddisgresiwn.

### Trethu

Bydd taliadau llog a wneir i Aelodau yn atebol i gael eu trethu yn y DU. Disgwylir y bydd taliadau gros yn cael eu gwneud ac y bydd buddsoddwyr yn gyfrifol am ddatgelu'r incwm hwn ar eu ffurflenni treth.

### Darpariaethau ar farwolaeth Aelod

Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, pan fydd farw Aelod o'r Gymdeithas, gall eu cynrychiolydd personol wneud cais i dynnu cyfalaf y cyfranddaliadau yn ôl. Bydd dychwelyd cyfalaf cyfranddaliadau o dan y ddarpariaeth hon yn cael ei flaenoriaethu gan y Bwrdd dros ddychwelyd arian unrhyw Aelod arall.

# Amodau a Thelerau

## Cymhwyster

Mae'r cynnig ar gael i unrhyw un (dros 16 oed) neu sefydliad sy'n ateb y gofynion aelodaeth.

## Y drefn ymgeisio

- Gwneir cais am gyfranddaliadau gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais a dilyn y Nodiadau Canllaw.
- Trwy gyflwyno Ffurflen Gais mae Ymgeisydd yn cynnig tanysgrifio, ar yr Amodau a Thelerau a geir yn y Ddogfen hon, ar gyfer y nifer o Gyfranddaliadau a nodir, neu nifer llai a gaiff eu rhoi.
- Mae Ymgeisydd sy'n derbyn Cyfranddaliadau yn cytuno i aelodaeth awtomatig o'r Gymdeithas a bydd yn cadw at ei Rheolau.
- Unwaith y bydd cais wedi ei wneud, ni ellir ei dynnu yn ôl.
- Derbynnir ceisiadau niferus cyn belled nad ydynt yn golygu y bydd gan Aelod (ar wahân i Gymdeithas Gofrestredig) fwy na'r mwyafswm.

## Amserlen y Cynnig

Bydd y Cynnig yn agored hyd 24/12/19. Ni fydd unrhyw un o'r Gymdeithas, ei Chyfarwyddwyr na chynghorwyr yn gyfrifol am golled llog nac unrhyw fudd arall gan yr Ymgeiswyr yn ystod y cyfnod y bydd yr arian gan y Gymdeithas.

## Y Drefn ar ôl derbyn Ceisiadau

- Cyflwynir sieciau/ drafft banc ar ôl eu derbyn a gellir eu gwrthod os na fyddant yn clirio wrth eu cyflwyno'r tro cyntaf.
- Gellir cadw Arian Ceisiadau Dros Ben hyd nes y bydd sieciau Ymgeiswyr llwyddiannus wedi clirio.
- Gellir gwrthod ceisiadau cyfan, neu rannol, neu eu gwneud yn llai, heb orfod rhoi rheswm.
- Bydd Arian Cais ar gyfer unrhyw Geisiadau a wrthodir neu a leiheir yn cael eu dychwelyd ddim hwyrach na mis ar ôl diwedd y Cynnig.
- Nid oes llog yn daladwy ar Arian Cais a gyflwynir ac a ddychwelir.
- Gellir derbyn ceisiadau ar Ffurflenni Cais anghyflawn neu anghywir fel pe baent yn gyflawn ac yn gywir.
- Mae'r Gymdeithas yn dal yr hawl i beidio â mynd i ohebiaeth gydag Ymgeiswyr tra'n aros am gyhoeddi tystysgrifau cyfran neu ddychwelyd yr Arian Cais.
- Cyhoeddir canlyniadau'r Cynnig ar wefan y Prosiect o fewn mis i gau'r Cynnig.
- Pe digwyddai fod yna ormod o danysgrifwyr, caiff ceisiadau'r Cyfarwyddwyr eu bodloni'n llawn a bydd y Cyfarwyddwyr yn penderfynu ar ddyraniad priodol y cyfranddaliadau yn ôl eu doethineb.
- Cyhoeddir pob tystysgrif cyfranddaliadau i Ymgeiswyr llwyddiannus o fewn mis i ddiwedd y Cyfnod Cynnig.

### Trefniadau prisiau, masnachu a delio

Cynigir Cyfranddaliadau am eu gwerth llawn o £1 yr un. Mae gwerth asedol pob cyfran yn debygol o barhau yn £1 a bydd unrhyw adbrynu Cyfranddaliadau yn digwydd am eu llawn werth.

### Gwneud Cais am Gyfranddaliadau

Cyn cwblhau'r Ffurflen Gais dylech ystyried cymryd cyngor ariannol priodol ac unrhyw gyngor arall. Tynnir eich sylw'n benodol at:

- Yr adran Ffactorau Risg sy'n disgrifio'r risgiau o ran buddsoddi yn y Cynnig Cyfranddaliadau.
- Amodau a Thelerau'r Cynnig. Trwy gwblhau'r Ffurflen Gais byddwch yn gwneud cynnig di-droi'n-ôl allai gael ei dderbyn gan y Gymdeithas.
- Rheolau'r Gymdeithas. Trwy brynu'r Cyfranddaliadau byddwch yn dod yn Aelod o'r Gymdeithas ac yn gorfod cadw at ei Rheolau.

### Swm i'w fuddsoddi

Pris pob cyfranddaliad yw £1. Y lleiafswm a gewch yw 100. Y mwyafswm yw 10,000, a mwyafswm cyfan o 100,00. Bydd taliadau llog blynyddol yn seiliedig ar nifer y Cyfranddaliadau sydd gennych, ond dim ond un bleidlais fydd gennych, waeth faint o Gyfranddaliadau sydd gennych.

### Dyraniadau

Efallai na fyddwch yn derbyn y nifer o Gyfranddaliadau y gwnaethoch gais amdanynt. Os bydd gormod o danysgrifio i'r Cynnig, efallai y bydd cyfyngu ar eich cais, neu y bydd yn cael ei wrthod yn gyfan gwbl.

### Datganiad

Wrth lofnodi'r Ffurflen Gais rydych yn gwneud cynnig di-droi'n-ôl i fynd i gytundeb gyda'r Gymdeithas. O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, efallai y bydd angen i chi ddangos tystiolaeth foddhaol i brofi pwy ydych chi, ac mae'n amod o'r Cynnig eich bod yn gwneud hynny fel y gofynnir i chi

Mae'n rhaid i'r rheiny nad ydynt yn preswyllo yn y DU gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau nad oes cyfreithiau neu reoliadau yn eu gwlad eu hunain fyddai'n eu hatal rhag buddsoddi neu dderbyn incwm gan Gymdeithas yn y DU.

### Talu

Dylech atodi siec neu ddrafft banc, o fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, am yr union swm a ddangosir yn y blwch o dan 'Swm i'w fuddsoddi'. Gallwch dalu trwy drosglwyddiad banc hefyd.

## CAIS AM GYFRANDDALIADAU GYDAG YNNI SIR GÂR

### Cyn cwblhau'r Ffurflen Gais hon dylech:

- Ddarllen y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau sy'n cyd-fynd â hi
- Rhoi sylw arbennig i'r Ffactorau Risg a nodir yn y Ddogfen Gynnig
- Ystyried a ddylech gymryd cyngor ariannol neu gyngor arall
- Darllen Rheolau Ynni Sir Gâr sydd ar gael gan y Gymdeithas

### DEFNYDDIWCH BRIF LYTHRENAU AC INC DU A CHWBLHEWCH Y DDWY DUDALEN

Rwyf/Mae fy sefydliad yn dymuno buddsoddi cyfanswm o £      .00 yn Ynni Sir Gâr ar Amodau a Thelerau'r Ddogfen Gynnig am bris o £1.00 am bob Cyfranddaliad. Gallwch fuddsoddi dim llai na £100 a dim mwy na £10,000.

### Manylion Ymgeiswyr Unigol

Teitl (Mr/Mrs/Ms/arall):

Enwau Cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

E-bost:	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
---------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Rhowch eich cyfeiriad e-bost os yn bosibl er mwyn lleihau'r costau gweinyddol.

Os hoffech daliadau gan y Gymdeithas drwy drosglwyddiad banc yn hytrach na siec, rhowch eich manylion banc isod.

Enw ar y cyfrif:	Cod didoli:	Rhif y cyfrif:
------------------	-------------	----------------

### Os yw'r cais gan Sefydliad, llenwch y manylion cyswllt uchod ac hefyd

Enw'r sefydliad:

Cyfeiriad y sefydliad:

Math o sefydliad:

Rhif cofrestru:

Swyddogaeth y llofnodwr awdurdodedig:

*Ewch ymlaen i'r Datganiad trosodd a'i lofnodi os gwelwch yn dda*

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau fy mod yn deall:

- Y gellir tynnu'r Cais hwn yn ôl os cyhoeddir Dogfen Gynnig atodol, ond nid fel arall, ac os caiff ei dderbyn gan y Gymdeithas y bydd yn ffurfio contract cyfreithiol ar Amodau a Thelerau'r Ddogfen Gynnig.
- Mae Ymgeisydd nad yw'n breswlydd yn y DU yn gyfrifol am sicrhau bod y Cais hwn yn unol ag unrhyw gyfreithiau neu reoliadau sy'n gymwys y tu allan i'r DU y mae ef/hi yn amodol iddynt.
- Os yw'r Cynnig yn cyrraedd ei darged yn fuan, efallai na chaiff Cais sydd fel arall yn gymwys ei dderbyn yn gyflawn nac yn rhannol oherwydd hyn.

Rwy'n cadarnhau:

- Fy mod wedi darllen y Ddogfen Gynnig (gan gynnwys y Ffactorau Risg a'r Nodiadau Canllaw i'r Ffurflen Gais hon) a Rheolau'r Gymdeithas.
- Rwyf dros 16 oed ac mae'r Ymgeisydd yn bodloni meini prawf cymhwysedd y Cynnig.
- Mae'r Gymdeithas yn cael ei hawdurdodi drwy hyn i wneud ymholiadau o'r fath sydd eu hangen i gadarnhau cymhwysedd y Cais hwn.
- Nid yw'r Ymgeisydd yn dibynnu ar unrhyw wybodaeth na sylwadau o ran y Cynnig neu'r Gymdeithas, nad yw wedi ei chynnwys yn y Ddogfen Gynnig
- Bydd yr Ymgeisydd yn rhoi'r holl wybodaeth ychwanegol a'r ddogfennaeth y mae'r Gymdeithas yn gofyn amdanynt mewn cysylltiad â'r Cais hwn gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â gwyngalchu arian, trethu neu reoliadau eraill.
- Os wyf yn llofnodi'r Cais hwn ar ran rhywun/ sefydliad arall, rwy'n gwneud hynny gydag awdurdod penodol.

Rwy'n deall bod y siec sy'n dod gyda'r cais hwn yn cael ei chyflwyno fel taliad ar ôl ei derbyn ac rwy'n gwarantu y caiff ei thalu wrth ei chyflwyno'r tro cyntaf.

<b>Llofnod:</b> (Ymgeisydd/ar ran sefydliad sy'n ymgeisio fel y bo'n addas):	Dyddiad:
--	----------

### Taliad

Hoffwn dalu gyda

siec:

trosglwyddiad:

(ticiwch fel sy'n briodol)

Siec	Trosglwyddiad
Atoder un siec neu ddrafft banc ar gyfer y swm a ddangosir uchod, yn daladwy i Ynni Sir Gâr Cyfyngedig ac wedi ei chroesi fel cyfrif y Talai.	Trosglwyddwch i'r cyfrif canlynol: Ynni Sir Gâr Cyfyngedig Cod didoli: 08-92-99 Rhif y cyfrif: 65672130 Defnyddiwch enw'r Ymgeisydd fel cyfeiriad i'w roi wrth y trosglwyddiad os gwelwch yn dda.

Anfonwch eich Ffurflen Gais wedi ei chwblhau a'r taliad i: **Ynni Sir Gâr Cyfyngedig, 75 Heol y Dŵr, Caerfyrddin, SA31 1PZ** neu lofnodi, sganio ac e-bostio i [mail@yannisirgar.org](mailto:mail@yannisirgar.org)

### ***Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni sut y daethoch i glywed am y Cynnig Cyfranddaliadau hwn:***

Gellir llungopïo'r ffurflen gais hon ac mae ffurflenni cais ychwanegol ar gael. Cyfeiriwch bob ymholiad i'r manylion cyswllt ar gefn y ddogfen Gynnig hon.

***DIOLCH AM GYFLWYNO CAIS I YMUNO AG YNNI SIR GÂR CYF.***

## Geirfa

**Ymgeisydd** Y sawl sy'n ymgeisio am Gynnig Cyfranddaliadau trwy gyflwyno Ffurflen Gais.

**Ffurflen Gais** Y ffurflen yn y Ddogfen Gynnig hon y mae'n rhaid ei chwblhau a'i dychwelyd yn unol ag Amodau a Thelerau'r Cynnig hwn a'r Nodiadau Canllaw.

**Arian Cais** Cyfanswm gros yr arian a ddaw o'r Cynnig hwn.

**Y Bwrdd** Bwrdd Cyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf.

**Newid hinsawdd** Y dywediad a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio'r patrymau tywydd sy'n newid o ganlyniad uniongyrchol i gynhesu byd-eang.

**Cronfa Gymunedol** Cronfa y mae'r Gymdeithas yn talu iddi i'w dosbarthu i sefydliadau lleol.

**Cyfarwyddwyr** Cyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf.

**Tariff Cyflenwi Trydan** Ysgogiad i gynhyrchu trydan a gyflwynwyd gan Lywodraeth EM ar 1af Ebrill 2010 o dan bwerau Deddf Ynni 2008.

**Ynni Sir Gâr (neu'r Gymdeithas)** Ynni Sir Gâr Cyf. Cymdeithas Budd Cymunedol a Gofrestrwyd gyda'r FCA Rhif 31915R

**Cyfranddaliadau Ynni Sir Gâr** Cyfranddaliadau cyffredin o £1 yn Ynni Sir Gâr.

**Y Gosodiad** yn y Ddogfen Gynnig hon yw'r tyrbin gwynt, gweddill y peiriannau, gwaith sifil ac offer ategol y Prosiect.

**kW (kilowatt)** Uned sy'n mesur pŵer ac sy'n cyfateb i 1 mil Watt.

**kWh (kilowatt hour)** Uned sy'n mesur ynni ac sy'n gyfystyr â'r ynni all roi pŵer o 1 kW am gyfnod o awr.

**MWh (megawatt hour)** Uned sy'n mesur ynni ac sy'n gyfystyr â'r ynni all roi pŵer o 1 MW am gyfnod o awr.

**Y Cynnig** Y Cynnig o gyfranddaliadau'r Gymdeithas sy'n rhan o'r Ddogfen Gynnig hon.

**Costau'r Cynnig** Y costau y mae'r Gymdeithas yn eu hwynebu wrth gyhoeddi'r Ddogfen Gynnig hon.



**Cyfnod y Cynnig** Y cyfnod y bydd y Cynnig ar agor (gan gynnwys unrhyw estyniad) fel y'i nodir yn amserlen y Cynnig yn y ddogfen hon.

**Cyfranddaliadau'r Cynnig** Cyfranddaliadau newydd o £1 gyda'r Gymdeithas wedi'u cynnig am eu gwerth llawn ar yr Amodau a Thelerau ac yn daladwy yn llawn adeg gwneud y cais.

**PPA** Cytundeb Pŵer Prynu ar gyfer gwerthu trydan.

**Prosiect** Bwriad y Gymdeithas o fod yn berchen ar dyrbin gwynt a'i redeg.

**Rhagamcanion** Rhagamcanion ariannol y Gymdeithas yn y ddogfen hon.

**Rheolau** Rheolau'r Gymdeithas, i'w cael o ofyn amdanynt.

**Sharenergy** Sharenergy Co-operative Limited, Cymdeithas Gofrestredig (rhif cofrestru 31237R)

**Seren Energy** Seren Energy Limited, (rhif cofrestredig 4783605) cwmni sy'n cynnig gwasanaeth ymgynghori ar ynni adnewyddadwy.

**Seren Renewables** Seren Renewables Limited, (rhif cofrestredig 6169721) cwmni sy'n datblygu tyrbinau gwynt ar raddfa gymunedol.

**Safle** Lleoliad y gosodiad arfaethedig.

**Amodau a Thelerau** Amodau a Thelerau'r Cynnig a gynhwysir ac a gynrychiolir gan y Ddogfen Gynnig hon.

## Ymholiadau

**Cyffredinol:** Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud ag Ynni Sir Gâr (er enghraifft cynnydd y prosiect, cronfa gymunedol) gadewch neges i Neil Lewis ar:

**01267 616333**

**mail@ynnisirgar.org**

Mae gwefan y prosiect, gyda dogfennau pellach, ar:

[www.ynnisirgar.org](http://www.ynnisirgar.org)

Mae'r Gymdeithas hon wedi ei datblygu gyda chymorth rhaglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Amgylcheddol Sir Gaerfyrddin, Canolfan Gydweithredol Cymru, Y Loteri Fawr (Arian i Bawb), Y Rhwydwaith dros Newid Cymdeithasol, ac Adfywio Cymru.

Diolch i Ynni Sir Gâr Cyf a Seren Energy Limited am y lluniau  
Mae Ynni Sir Gâr Cyf yn Gymdeithas Budd Cymunedol a gofrestrwyd gyda'r FCA (rhif cofrestru 31915R)